Un a gefais imi'n gyfaill

Caneuon Ffydd: Rhif 368

Un a gefais imi'n gyfaill,
pwy fel efe!
Hwn a gâr yn fwy nag eraill,
pwy fel efe!
Cyfnewidiol ydyw dynion
a siomedig yw cyfeillion;
hwn a bery byth yn ffyddlon,
pwy fel efe!

F'enaid, glŷn wrth Grist mewn cyni,
pwy fel efe!
Ffyddlon yw ymhob caledi,
pwy fel efe!
Os yw pechod yn dy ddrysu,
anghrediniaeth am dy lethu,
hwn a ddichon dy waredu,
pwy fel efe!

Dy gamweddau a ddilea,
pwy fel efe!
Dy elynion oll, fe'u maedda,
pwy fel efe!
Cei bob bendith iti'n feddiant,
hedd a chariad a'th ddilynant,
Crist a'th arwain i ogoniant,
pwy fel efe!

MARIANNE NUNN, 1778–1847
efel. PEDR FARDD, 1775–1845

MYFYRDOD

'Cyfnewidiol ydyw dynion', meddem yn aml pan fydd rhywun yn torri addewid neu'n mynd yn ôl ar ei air. Pedr Fardd sy'n ei ddweud gyntaf yma yn Gymraeg. 'A siomedig yw cyfeillion,' meddai Pedr Fardd yn y rhydd gyfieithiad hwn o emyn Marianne Nunn, sydd ynddo'i hun yn efelychiad o emyn cynharach John Newton. Rydym i gyd yn gallu cydymdeimlo â'r emynwyr yma sydd wedi sôn am bobl annibynadwy! Yr ydym yn adnabod rhai ein hunain; yn wir, faint mor ddibynadwy ydym ni pan fydd pobl eraill ein hangen?

Ond cyn cael gwybod am ffaeleddau'r hil ddynol, fe gawn ein cyflwyno yma i gyfaill nad oes mo'i gymar. 'Pwy fel efe!' yw'r

byrdwn drwy'r penillion ac, er ein bod yn amau'n gryf ein bod yn gwybod pwy yw'r cyfaill hwn, ni chawn ein cyflwyno iddo wrth ei enw tan y pennill olaf un: 'Crist a'th arwain i ogoniant, pwy fel efe!'

Diolchwn nad ydy Duw yr un fath â chi a fi, yn chwannog i newid ei feddwl, yn annibynadwy, yn ein hesgeuluso ac yn anghofio amdanom. Mae Duw yn ffyddlon ac yn gwbl gyfiawn yn ei ymwneud â ni. Mae'r gair Hebraeg am gyfiawnder, *Tsidkenu*, yn golygu bod yn union, yn gywir, yn onest, yn anrhydeddus ac yn wir i'n gair. Un felly ydy Duw, ac mae'r Ysgrythur yn datgan, 'Nid yw Duw fel meidrolyn yn dweud celwydd, neu fod meidrol yn edifarhau. Oni wna yr hyn a addawodd, a chyflawni'r hyn a ddywedodd?' (Num. 23:19). Mae'n datguddio ei gyfiawnder inni trwy gywirdeb perffaith ei gymeriad a'i weithredoedd.
Annigonol iawn ac amherffaith yw'n cyfiawnder ni o'i gymharu â Duw bob tro, oherwydd hunan-gyfiawnder ydyw hyd yn oed ar ei orau, yn llawn balchder a'r 'Fi fawr'. 'Nid oes neb cyfiawn, nac oes un', meddai Paul wrth y Rhufeiniaid (Rhuf. 3:10).Wyneb yn wyneb â chyfiawnder Duw, ni chawn ni ond ymwybyddiaeth o'n pechod ein hunain yn ein drysu, ein crwydriadau a'n diffyg uniondeb. Ond, a ninnau yn haeddu ein cosbi, cysur yw gwybod bod Duw yn llysoedd y nefoedd wedi rhoi ei gyfiawnder ei hun i ni yn Iesu Grist, yn lle'r gosb a haeddem – 'hwn a ddichon dy waredu'. Fe dalodd Crist y pris am ein hanwireddau ni ar y groes – 'pwy fel efe!'

O roi Iesu yng nghanol ein perthynas ni gyda phobl eraill, a bod felly yn gywir gydag eraill, fe welwn ein bywydau yn gweithredu yn fwy effeithiol. Ni chaiff eraill ein galw'n gyfnewidiol a chymryd eu siomi ynom ni, oherwydd yr ydym yn cael ein gwneud yn gyfiawn yn Iesu Grist. Pan blygwn ni i lawr yn edifeiriol am ein diffygion a'n camweddau fe dderbyniwn ei drugaredd a'i gyfiawnder drosom ni ac fe gawn ein cymodi â'r rhai a siomwn, a chael 'pob bendith iti'n feddiant'.

GWEDDI

O Dad trugarog, llawn gras a maddeuant, fe roddaist ti Iesu imi'n gyfaill i'm caru a'm gwaredu. Helpa fi i fod 'fel efe', yn ffyddlon ac yn gywir ym mhob peth. Dyro gyfiawnder Iesu Grist imi yn fy mherthynas gyda thi a chydag eraill hefyd. Er mwyn Crist. Amen.